Taith Gerdded Ffordd i Emaus

Taith gerdded gyda myfyrdod arbennig cerdded i Emaus (Luc 24)

Melin Ifan Ddu i Gwm Ogwr

Dydd Sul, Ebrill 27, 3yp

Bydd cyfle i gymdeithasu yng nghaffi Bara yn Melin Ifan Ddu yn dilyn y daith gerdded.

Dehongli'r Testament Newydd

Tiwtor: Yr Athro Catrin Haf Williams

Cyfres o chwe sesiwn yn cyflwyno myfyrwyr i'r Efengylau a Llyfr Datguddiad, gan ganolbwyntio ar agweddau hanesyddol, diwinyddol, a llenyddol, tra hefyd yn cynnig arolwg ac asesu arwyddocâd y gwahanol ddulliau cyfoes a ddefnyddir wrth astudio'r Testament Newydd.

Dyddiadau: nosweithiau Llun, 28.04.2025 – 02.06.2025
Amser a lleoliad: 7:30–8:30 o'r gloch ar Zoom.

I gofrestru ar gyfer y sesiynau hyn, neu am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall, Cydlynydd Hyrwyddo Gweinidogaethau Undeb yr Annibynwyr Cymraeg: carwyn@annibynwyr.cymru

O e d f a o n

Mai 4, 2025
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Y Parchg Robin Samuel

Mai 11, 2025
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg

Mai 18, 2025
Penybont 9:45 / Porthcawl 11:15
Gweiniodg

Gofalaeth Glannau Ogwr

glannauogwr.cymru

Tabernacl, Pen-y-bont ar Ogwr
4 Derwen Rd, Penybont, CF31 1LH

Tabernacl, Porthcawl
18 Fenton Place, Porthcawl, CF36 3DW

Gweinidog
Parchg Dylan Rhys Parry
4 Heol Cambell, Coity, CF35 6GP
Symudol: 07535904599
Ebost: dylan89rhys@gmail.com

Gofalaeth Glannau Ogwr

Papur Wythnosol Gofalaeth Glannau Ogwr

KOINONIA

Rhifyn 121 Ebrill 27, 2025

Cofio y Pab Fransis

Ddoe bu angladd y Pab Fransis gymryd lle yn y Fatican. Lle daeth arweinwyr y byd i gofio ac i dalu teyrnged iddo. Ganed Jorge Mario Bergoglio yn Buenos Aires, Ariannin, ac o oedran ifanc teimlodd alwad Duw i wasanaethu. Yn offeiriad, yn esgob ac yn Archesgob Buenos Aires, roedd yn adnabyddus am ei fywyd o ostyngeiddrwydd, ei fywyd syml, a'i gariad dwfn at y tlawd. Yn 2013, daeth i'r pabyddiaeth.

Bu ei fywyd yn dystiolaeth i ostyngeiddrwydd, trugaredd, a'r gobaith parhaol a geir gennym yn Iesu Grist. O ddechrau ei babyddiaeth, galwodd y Pab Ffransis ar yr eglwys i estyn allan — at y tlawd, y rhai sydd ar y cyrrion, a'r rhai â chalonau torredig — ac i gerdded bob amser â thosturi a llawenydd. Un o'i prif neges, mai byw i eraill yw gwir ffydd yng Ngrist;

"Rivers do not drink their own water; trees do not eat their own fruit. The sun does not shine on itself. Living for others is a rule of nature."

Drwy ei eiriau a'i esiampl, atgoffodd nad yw ffydd yn bell nac yn oer, ond yn fyw ac yn agos at y bobl. Roedd ei gariad dwfn at greadigaeth Duw, ei ymdrech ddiflino dros heddwch, a'i ymrwymiad diysgog i gyfiawnder a gofal dros y bregus yn oleuni arweiniol i genedlaethau i ddod. Roedd ei lais dros hawliau dynol, dros ofal am ein byd, a'i alwad barhaus i adeiladu pontydd rhwng pobl yn atseinio ym mhob Man.

Er ei awdurdod a'i bwer, dewisodd y Pab yr enw Fransis sydd yn ein hatgoffa o St Fransis o Asisi oedd yn adnabyddus fel sant y tlawd a'r greadigaeth. Un oedd yn plygu gerbron Duw mewn gostyngeiddrwydd a oedd yn cydnabod ei natur ddynol, ac a oedd pob amser oedd yn pwyso a'r drugaredd yr Arglwydd.

glandeg

RHWYDWAITH MERCHED

Beauty Banks

Teitl ymgyrch y Rhwydwaith Merched eleni yw 'Glandeg'. Dyma ychydig am nod yr ymgyrch a'r weledigaeth y tu ôl iddi gan gadeirydd y Rhwydwaith, Mererid Mair.

Mewn sgwrs ddiweddar ynglyn â chynnyrch glanweithdra, harddwch a cholur, dyma fi'n datgan yn reit gadarn "Does gen i ddim llawer o ddiddordeb mewn *moisturisers* a cholur ac ati – dwi ddim yn defnyddio gymaint a hynny o bethau!"

Ond yn dilyn cyfarfod o swyddogion Rhwydwaith Merched UAC yn ddiweddar lle roeddem yn trafod effaith tlodi yn ein cymunedau a thema ac ymgyrch ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, dyma ystyried faint o *'toiletries'* a chynnyrch i'r croen a colur ydw i'n ei ddefnyddio go iawn. Dyma nodi felly un bore, bob dim roeddwn yn ei ddefnyddio i gadw fy hun yn lan, a fy ngwneud yn barod ar gyfer y dydd boed hynny yn ddiwrnod o waith neu hamdden.

Mi fyddai'n hoffi cawod yn y bore felly dyma ddechrau;

Cawod

- bar siampw i olchi fy ngwallt
- conditioner
- sebon a gwlanen molchi ar gyfer golchi.
- Deodarant (hollol anghenrheidiol).
- Brws dannedd a past dannedd

Gwallt

- Sywchwr gwallt
- Cynnyrch gwarchod y gwallt rhag gwres y sychwr
- Cynnyrch i wneud fy ngwallt edrych yn fwy trwchus!!
- Brws gwallt a 'clip' os fydd y gwallt yn cael ei roi i fyny!

Fy wyneb!

- Moisturiser
- Concealer – (i orchuddio'r bochau coch a brychni haul!)
- Foundation

Taswn i'n mynd allan gyda'r nos, efallai baswn i'n rhoi ychydig o liw ar y llygaid a mascara – ond mae hynny yn ormod o ffaff i fi bob diwrnod!

Ond heb feddwl bron iawn, dwi'n defnyddio dros ddwsin o eitemau glanweithdra/harddwch gwahanol cyn gadael y ty bob dydd. A dwi'n gwneud hynny heb feddwl eilwaith.

Gwahoddiad

Carem eich gwahodd yn gynnes iawn i fynychu

Darlith Gyhoeddus

sef Darlith Goffa Dr. Pennar Davies a Dr Tudur Jones

Nos Iau, 1 Mai, 2025 am 7:30 o'r gloch
Yng nghapel y Tabernacl,
Yr Ais, Caerdydd, CF10 1AJ

Ym mlwyddyn nodi 1700 ers Cyngor Nicea, testun y ddarlith fydd

"Credo in unum Dominum nostrum, Jesum Christum, filium Dei"
Pwy yw Iesu Grist i ni yng Nghymru heddiw?

Darlithydd Gwadd: Parchedig Ddr Rosa Hunt

Gweinidog Eglwys y Tabernacl, Caerdydd, a chyn gyd-bennaeth Coleg y Bedyddwyr

Croeso cynnes i chi fynychu'r ddarlith.
Bydd hefyd yn cael ei ffrydio'n fyw, a gellir gwylio drwy'r ddolen ar wefan yr Undeb, www.annibynwyr.cymru.
Trefnir y Ddarlith gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.